Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o graffu yng Nghyngor Sir y Fflint

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint fel rhan o waith i'w gyflawni yn unol ag adran 17 (2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

## Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 10 |
| Atodiadau | 11 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 12 |
| Amdanom ni | 14 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom edrych ar ba un a oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi craffu effeithiol.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae craffu effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Gall pwyllgorau craffu ddarparu rhwystrau a gwrthbwysau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, helpu i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw, a gwella gwasanaethau'r Cyngor.

3 Gall pwyllgorau craffu hefyd fod â swyddogaeth bwysig o ran cyfrannu at ddatblygiad polisi, monitro perfformiad a helpu i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

4 Nid yw swyddogaeth graffu'r Cyngor wedi ei chynllunio'n dda, ac mae'n aml yn aneffeithiol o ganlyniad. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gan y Cyngor ddiffyg cyd-ddealltwriaeth o swyddogaeth a diben craffu.

5 Er bod cymorth swyddogion i gynghorwyr yn cael ei ganmol, ceir gwendidau yn y ddarpariaeth o hyfforddiant i aelodau pwyllgorau craffu. Hefyd, nid yw'r Cyngor yn gwerthuso gwerth am arian, gan gynnwys effeithiolrwydd, ei swyddogaeth graffu.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Rydym yn gwneud un argymhelliad i'r Cyngor, sef adolygu ei swyddogaeth graffu i sicrhau ei bod yn cyflawni ei swyddogaeth fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Dylai hyn gynnwys:

- sicrhau bod dealltwriaeth o swyddogaeth a diben craffu;
- adolygu'r rhaglennu gwaith a'r ddarpariaeth o hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cefnogi craffu effeithlon; a
- gwerthuso gwerth am arian ac effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu.

# Ein canfyddiadau

## Nid yw gweithgarwch craffu wedi ei gynllunio'n dda bob amser, ac mae'n aml yn aneffeithiol o ganlyniad

7 Er bod swyddogaeth graffu'r Cyngor yn cyflawni llawer iawn o weithgarwch, nid yw bob amser wedi'i gynllunio'n dda, ac o ganlyniad nid yw'n arwain at ganlyniadau eglur yn aml. Mae'r Cyngor wedi penderfynu cyflawni'r rhan fwyaf o'i weithgarwch craffu trwy gyfarfodydd ffurfiol ei bum pwyllgor craffu. Fe wnaethant gyfarfod cyfanswm o 61 o weithiau yn 2025-26. Fodd bynnag, mae pwyllgorau yn aml yn derbyn adroddiadau 'i'w nodi' heb unrhyw reswm amlwg pam maent yn eu hystyried. Yn aml, nid yw adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau yn esbonio'n eglur pam mae pwyllgorau yn eu hystyried, a pha swyddogaeth y disgwylir i'r pwyllgor ei chyflawni.

8 Trwy beidio â bod yn eglur pam mae pwyllgorau yn ystyried adroddiadau, mae'r Cyngor yn cynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd na fydd gweithgarwch craffu yn effeithiol.

9 Yn aml hefyd, mae agendâu pwyllgorau craffu'r Cyngor yn cynnwys llawer o eitemau a phecynnau adroddiadau sy'n hirfaith. Gall hyn hefyd fod yn rhwystr i graffu effeithiol. Mae rhai cynghorwyr yn teimlo y gall hyd adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau ei gwneud yn anodd nodi materion allweddol i graffu arnynt. Er ein bod yn derbyn y dylai fod cyfyngiad penodol ar faint agendâu neu gofnodion sy'n berthnasol i bob cyfarfod, mae'n bwysig bod amser digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer ystyriaeth briodol o eitemau gan bwyllgorau.

10 Mae'r rhan fwyaf o waith craffu'r Cyngor yn digwydd trwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Fodd bynnag, roedd yr enghreifftiau a welsom lle'r oedd yn ymddangos bod gweithgarwch craffu yn cael effaith gadarnhaol drwy grwpiau gorchwyl a gorffen, sy'n grwpiau llai sy'n gweithredu y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r pwyllgor craffu fel rheol yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â phynciau.

11 Trwy beidio â blaenoriaethu a chynllunio gweithgarwch craffu yn effeithiol, mae'r Cyngor mewn perygl o ddefnyddio adnoddau mewn ffordd nad yw'n ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau ac felly i sicrhau gwerth am arian.

12 Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod eitemau agenda pwyllgorau yn berthnasol i waith y pwyllgorau ond nid yw bob amser yn eu rhoi ar waith. Clywsom enghreifftiau lle derbyniodd pwyllgorau adroddiadau i'w blaenraglen waith heb asesu eu perthnasedd. Arweiniodd hyn at swyddogion yn cyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu â pherthnasedd cyfyngedig i gylch gwaith y pwyllgor perthnasol.

13 Mae hyn hefyd yn golygu bod ystyriaeth pwyllgorau o adroddiadau yn ymwneud â gwasanaethau uchel eu proffil a phwysau ariannol wedi cael ei hoedi. Er enghraifft, cafodd ystyriaeth pwyllgor o adroddiad yn trafod cynllun gweithredu a phwysau cyllidebol yr adran gwasanaethau cymdeithasol ei hoedi am dri mis. Roedd hyn oherwydd bod y blaenraglen waith yn 'rhy llawn'. Mae gofalu bod gweithgarwch craffu yn cael ei flaenoriaethu yn bwysig i helpu pwyllgorau craffu i ganolbwyntio ar y pynciau mwyaf arwyddocaol lle gallant gael yr effaith fwyaf.

14 Mae bod yn eglur ynghylch diben gweithgarwch craffu ac yna dethol y ffordd fwyaf priodol o weithio hefyd yn bwysig i sicrhau bod craffu yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Mae gan gynghorwyr ddealltwriaeth gyfyngedig o swyddogaeth craffu a'r rheolau gweithdrefn ar ei gyfer

15 Nid yw aelodau pwyllgorau craffu bob amser yn dangos eu bod yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau mewn pwyllgorau craffu yn llawn, na swyddogaeth craffu o fewn y Cyngor. Cyflwynir swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau craffu yng nghyfansoddiad y Cyngor, ond mae ein harsylwadau uchod am weithgarwch cynllunio craffu a diffyg canlyniadau amlwg ohono yn awgrymu bod gan y Cyngor ddiffyg cyd-ddealltwriaeth o swyddogaeth craffu.

16 Clywsom dystiolaeth hefyd o bwyllgorau yn defnyddio trefniadau galw i mewn a hysbysiadau o gynnig lle gallai dulliau mwy priodol ac sy’n defnyddio llai o adnoddau fod wedi cyflawni’r un canlyniadau. Mater i bwyllgorau craffu yw penderfynu sut maent yn mynd i’r afael â phynciau. Ond mae gwneud yn siŵr bod aelodau craffu yn deall eu swyddogaethau a gwahanol ffyrdd o ystyried pynciau craffu yn bwysig i helpu i sicrhau bod y swyddogaeth graffu yn effeithiol.

## Mae cymorth swyddogion i aelodau pwyllgorau craffu yn cael ei ganmol, ond ceir gwendidau yn y ddarpariaeth o hyfforddiant

17 Clywsom adborth cadarnhaol gan gynghorwyr ar y cymorth y maent yn ei dderbyn gan swyddogion gwasanaethau democrataidd a hwyluswyr craffu. Mae’r cymorth hwn yn cynnwys cymorth gweinyddol y tu allan i gyfarfodydd pwyllgorau craffu a grwpiau gorchwyl a gorffen, ac yn eu hystod, i gadeiryddion pwyllgorau ac i aelodau pwyllgorau.

18 Fodd bynnag, ceir gwendidau yn yr hyfforddiant a ddarperir i aelodau craffu. Er enghraifft, nid oes gan y Cyngor raglen hyfforddi wedi’i chynllunio i gynorthwyo aelodau pwyllgorau craffu. Mae’r Cyngor wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant i gynghorwyr, gan gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant i aelodau pwyllgorau craffu i sicrhau eu bod yn deall eu swyddogaeth a swyddogaeth eu pwyllgor. Ond nid oedd hyn yn rhan o raglen hyfforddi gynhwysfawr wedi’i chynllunio.

19 Adroddodd y Cyngor i’w Bwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ym mis Medi 2025 y byddai’n ymgynghori â chynghorwyr ar eu gofynion hyfforddi, ond nid yw wedi gwneud hyn eto. Mae rhai aelodau pwyllgorau craffu yn teimlo nad ydynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ers cychwyn eu swyddi ar bwyllgorau craffu. Nid yw’r Cyngor yn cofnodi chwaith pa gynghorwyr sydd wedi bod i sesiynau hyfforddi ac nid yw wedi gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd.

20 Trwy beidio â sicrhau bod aelodau pwyllgorau craffu yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ddeall a chyflawni eu swyddogaethau, mae’r Cyngor yn cynyddu’r perygl y bydd gweithgarwch craffu yn aneffeithlon ac yn aneffeithiol.

## Nid yw’r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu

21 Nid yw’r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu yn rheolaidd. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i’w bwyllgorau craffu adrodd bob blwyddyn i’r Cyngor ar “eu gwaith a gwneud argymhellion ar raglenni gwaith y dyfodol a dulliau gweithio diwygiedig os yn briodol”. Nid yw hyn wedi digwydd ers 2021. Nid oes gan y Cyngor drefniadau eraill i adolygu ei swyddogaeth graffu yn ffurfiol yn rheolaidd.

22 Mae hyn yn golygu nad yw’r Cyngor yn gwybod a yw ei swyddogaeth graffu yn effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd mewn perygl o fethu cyfleoedd i wella.

# Argymhellion

Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad isod, gallai'r Cyngor ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at Bapur Trafod Archwilio Cymru, Chwe cham tuag at graffu gwell yng Nghymru a'r rhestr wirio atodol, Rhestr wirio: Chwe cham i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol'.

**A1** Dylai'r Cyngor adolygu ei swyddogaeth graffu i sicrhau ei fod yn cyflawni'r swyddogaethau a nodir ar ei gyfer yng nghyfansoddiad y Cyngor ac mewn deddfwriaeth berthnasol. Yn rhan o hyn, dylai'r Cyngor:

**1.1** ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o swyddogaeth a diben craffu ymhlith yr holl gynghorwyr a swyddogion uwch; (**paragraffau 15 ac 16**)

**1.2** cynorthwyo aelodau pwyllgorau craffu i gryfhau eu dull o raglennu gwaith i helpu i wneud yn siŵr bod gweithgarwch craffu wedi'i gynllunio'n dda, ac i'w helpu i gael yr effaith a ddymunir ohono; (**paragraffau 7 i 14**)

**1.3** nodi anghenion hyfforddi aelodau pwyllgorau craffu a chyflwyno hyfforddiant a datblygiad priodol i'w diwallu; (**paragraffau 18 i 20**)

**1.4** rhoi trefniadau ar waith i adolygu'n rheolaidd gwerth am arian ei drefniadau craffu, gan gynnwys eu heffeithiolrwydd. (**paragraffau 21 a 22**)

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad adolygu trefniadau'r Cyngor i gefnogi ei swyddogaeth graffu. Edrychodd hefyd ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a'r argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2018.

Ni roddodd yr archwiliad sylw i swyddogaethau adolygu eraill y Cyngor, fel y rhai a gyflawnir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cynhaliwyd yr archwiliad gennym rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2026.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Aeth yr archwiliad ati i geisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi nodi'n eglur y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau i'r rhai sy'n ymwneud â'i drefniadau trosolwg a chraffu?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gynorthwyo aelodau a swyddogion ei bwyllgorau craffu?
- A yw'r swyddogaeth graffu yn blaenoriaethu ac yn cynllunio ei gweithgareddau i sicrhau'r effaith a fwriedir?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn gweithredu'n effeithiol?
- A yw trefniadau craffu'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i alluogi'r gweithwyr craffu i gyflawni eu swyddogaeth a sicrhau'r effaith a fwriedir ganddynt?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso effeithiolrwydd craffu?

## Meini prawf

I'n helpu i asesu effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor, rydym wedi datblygu meini prawf yn seiliedig ar 'Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu yn 'Addas at y Dyfodol'' yr Archwilydd Cyffredinol a rhestr wirio Chwe cham i helpu i wneud craffu yn addas at y dyfodol fel dogfennau cyfeirio.

# Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygiad o ddogfennau, er enghraifft, o bapurau pwyllgor, canllawiau i gynghorwyr, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwadau o sampl o gyfarfodydd pwyllgorau craffu; a
- chyfweliadau gyda swyddogion allweddol a chynghorwyr.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.